**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 10 Mawrth 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mawrth 2020 |

## PWNC

Eitem 6:CYNLLUN BUDDSODDI I ARBED - NEUADD DWYFOR

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i:

- Gefnogi'r egwyddor o ddatblygu prosiect cyfalaf buddsoddi i arbed gwerth hyd at uchafswm o £779,314 yn Neuadd Dwyfor er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau, gwella'r cyfleon i godi incwm a sicrhau diogelwch defnyddiwr;
- Cydnabod y risg o golled incwm o ganlyniad i gau'r Neuadd yn ystod y gwaith adeiladu os bwrir ymlaen;
- Cefnogi dyrannu cyfraniad un-tro o gyllideb Trawsnewid y Cyngor ar gyfer buddsoddiad – sef hyd at £570,000 (cyfalaf);
- Cefnogi ail-broffilio arbedion fel a gytunwyd yn wreiddiol i'r proffil a amlinellir yn nhabl 8.1;
- Cefnogi cyflwyno ceisiadau i gyrff allanol i geisio lleihau cyfraniad y Cyngor ac uchafu gwerth buddsoddiad y Cyngor;
- Cefnogi adnabod a chydweithio gyda phartneriaethau a sefydliadau lleol all gefnogi'r Neuadd i gyrraedd y targed arbediad llawn o £100,000 yn y tymor canolig yn dilyn y buddsoddiad – a hynny drwy osod her arnynt i leihau'r bwlch ariannol a chynorthwyo'r Cyngor i wneud arbediad parhaol o £100,000 yn y gyllideb erbyn 2025.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar arbedion 2019-2022 rhoddwyd targed o £100,000 o arbediad yn erbyn Gwasnaeth Celfyddydau Perfformio Neuadd Dwyfor. Roedd y targed yma i'w wireddu drwy gynllun Buddsoddi i Arbed fyddai'n gwella'r Neuadd a'r cyfleon codi incwm yno. Mae'r cynlluniau wedi eu datblygu, costau buddsoddi wedi eu hamcanfyfrif a cheisiadau grant wedi eu gwneud i Lywodraeth Cymru.

Gofynwyd am benderfyniad y Cabinet ar y cynlluniau fel bod modd i adnoddau cyllidebol fod ar gael i fuddsoddi.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU

**PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol ynghyd â'r Aelod Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 10 Mawrth 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mawrth 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 7:ADDYSG ÔL-16

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd rhoi caniatâd i'r adran gynnal trafodaethau gyda rhan-ddeiliad er mwyn ystyried y ddarpariaeth bresennol ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn cyd-adnabod y cyfeiriad a chyfleodd i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae tirlun addysg ôl-16 yn newid gyda bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddf newydd yn ystod 2020. Mae'n amserol felly i'r Awdurdod ystyried os yw'r ddarpariaeth bresennol yn effeithiol ar gyfer anghenion pobl ifanc y sir nawr ac i'r dyfodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Catrin Wager a'r Cyng. Ioan Thomas gan fod y ddau yn aelod o'r llywodraethwyr mewn ysgolion uwchradd yn Arfon.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 10 Mawrth 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mawrth 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 8:CYNLLUN CYDRADDOLDEB 2020-24

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y ddogfen.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Dyma drydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Pwrpas y Cynllun yw i leihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodwedd gwarchodedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'r dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 10 Mawrth 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 25 Mawrth 2020 |

---

## PWNC

Eitem 9:CANOLFAN INTERGREDIG MAESGEIRCHEN

---

## PENDERFYNIAD

Cydweithio gyda'r cymuned ym Maesgeirchen, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac Adra i ddatblygu cynllun posib ar gyfer Canolfan Integredig ar y stad ar gyfer gwasanaethau a darpariaeth cefnogi teulu ac adrodd yn ôl gyda argymhellion ar gyfer y ffordd ymlaen.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cyngor fabwysiadu 'Cynllun Asedau 2019-2029' ym Mawrth 2019, mae'r cynllun yn clustnodi cyfraniad o £500,000 tuag at ddatblygu Canolfan Integredig Cefnogi Teulu ym Maesgeichen. Ychwanegir fod y gwariant wedi ei raglennu ar gyfer 2021/22 ond rhagwelir y bydd angen defnyddio peth o'r arian ar gyfer y gwaith paratoi yn 2020/21 a bod angen bod yn fyw i'r risg na fydd y swm a ddarparwyd yn ddigonol i gwrdd a'r angen.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol ynghyd â'r Aelodau Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---